| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

**TGAU**

3000N20-1

S19-3000N20-1

# CYMRAEG IAITH
## Uned 2
## Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

DYDD MERCHER, 8 MAI 2019 – BORE

2 awr

| I'r Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A (Darllen)** | **30** | |
| **Adran B (Ysgrifennu)** | **40** | |
| **Cyfanswm** | **70** | |

3000N201
01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A a B1.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B2 ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Adran A | - tua 10 munud yn darllen |
| | - tua 50 munud yn ateb y cwestiynau |
| Adran B1 | - tua 10 munud |
| Adran B2 | - tua 10 munud yn cynllunio |
| | - tua 40 munud yn ysgrifennu |

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

MAY193000N20101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

VP*(S19-3000N20-1)

Arholwr yn unig

## ADRAN A (Darllen): 30 marc

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Arwyr'. Darllenwch **bob** un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**100 o Arwyr Cymru**

**A1.** Pa arwr gafodd 1,627 o bleidleisiau?
Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

Owain Glyndŵr ☐

Gareth Edwards ☐

Tom Jones ☐

David Lloyd George ☐ [1]

**Darn Darllen 2**
**Arwr (Wicipedia)**

**A2.** Beth yw ystyr 'anghyffredin'? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

| | ✓ |
|---|---|
| Rhywbeth sy'n debyg iawn i bethau arferol | |
| Rhywbeth sy'n wahanol i bethau arferol | |

**Darn Darllen 3**
**Arwyr! #GwladGwlad**

**A3.** Ble byddwch chi'n gallu gweld y Casgliad Portreadau Cenedlaethol? [1]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**A4.** Pa ddiwrnod fedrwch chi ddim gweld yr arddangosfa? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

dydd Mawrth ☐

dydd Mercher ☐

dydd Iau ☐

dydd Sul ☐

**Darn Darllen 4**
**Arwres y Cymry – Gwenllian**

**A5.** Pa **ddau** beth sydd wedi eu henwi ar ôl Gwenllian? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

cae a ffynnon ☐

castell a thref ☐

tref a chae ☐

ffynnon a chastell ☐

**A6.** Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu'n anghywir drwy roi ✓ yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [2]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Bu farw Gwenllian yn 1100. | | ✓ |
| Roedd Gwenllian yn ferch i Gruffudd ap Rhys. | | |
| Roedd gan Gwenllian dri mab. | | |
| Cafodd Gwenllian ei lladd mewn brwydr. | | |
| Roedd llawer o ferched yn arwain brwydrau yn yr Oesoedd Canol. | | |

3000N201
03



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 5**
**Lansio Cystadleuaeth 'Ffermwraig y Flwyddyn'**

**A7.** Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r darn darllen, yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth yw ystyr yr isdeitl 'Arwresau cudd y diwydiant'. [3]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**Darn Darllen 6**
***Merci Cymru***

**A8.** Ym mha flwyddyn aeth Iola Wyn, am y tro cyntaf erioed, i wylio Cymru'n chwarae pêl-droed? [1]

........................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**A9.** Sut mae teimladau Iola Wyn yn newid yn y darn isod? Dylech gyfeirio at y darn i gefnogi'ch ateb. [4]

Tachwedd 17, 1993 y gwyliais fy ngwlad yn chwarae pêl-droed am y tro cyntaf erioed. Fyddwn i ddim wedi mynd i'w cefnogi oni bai bod fy nghariad newydd wedi cynnig tocyn i mi, a minnau'n ceisio creu argraff. Roedd angen i Gymru guro Romania er mwyn cyrraedd rownd derfynol prif bencampwriaeth pêl-droed am y tro cyntaf oddi ar 1958. Doeddwn i ddim yn deall pwysigrwydd y gêm, ond fe deimlais y siom pan fethodd Paul Bodin y gic o'r smotyn a chwalu gobeithion Cymru. Fe ddechreuais i fynd i fwy a mwy o gemau a dod i arfer â'r torcalon o golli. Flwyddyn yn ddiweddarach, roeddwn i wedi priodi'r cariad ac fe gafodd Iwan deithio i 99% o gemau oddi cartre Cymru. Roedd ef a'i ffrindiau wedi bod yn hynod ffyddlon wrth ddilyn y tîm. Roedd amod wrth gwrs i holl dripiau'r dynion oddi cartre, sef bod y gwragedd yn cael trip pe bai Cymru, ryw ddydd, yn cyrraedd rowndiau terfynol pencampwriaeth pêl-droed. Pan gurodd Cymru Andorra, dechreuodd y cynllunio mawr ar gyfer Ffrainc 2016. Dw i'n fwy na pharod i rannu profiadau ar gyfryngau cymdeithasol fel arfer. Ond methais ag ysgrifennu unrhyw beth o werth am fy mhrofiad o fod yn Ffrainc ar y pryd, oherwydd yr ofn na fedrwn gyfleu'r gwir deimlad o fod yno. Allai geiriau ddim gwneud cyfiawnder â'r wefr a brofais yn ystod y mis.

3000N201
05



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

A10. Mae nifer o ansoddeiriau yn y darn isod. Tanlinellwch **un** ansoddair. [1]

| |
|---|
| Diwedd siwrnai bêl-droed hudol ac unigryw. Dyna'r mis mwyaf lledrithiol, bendigedig, ardderchog dw i'n ei gofio. |



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**A11.** Trafodwch pa mor effeithiol yw'r ansoddair. [2]

3000N201
07

Arholwr yn unig

**A12. Cymharwch** brofiadau **Iola Wyn** a **Laura McAllister** wrth ddilyn y tîm pêl-droed cenedlaethol i Ffrainc. Gallwch drafod pethau sy'n debyg ac yn wahanol. Dylech gyfeirio at y darn darllen i gefnogi'ch ateb. [7]

Arholwr yn unig

3000N201
09



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A13.Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Daeth miloedd o bobl i weld yr arddangosfa ac roedd yn .......................................................... mawr.

atyniadol ☐

fethiant ☐

amhoblogaidd ☐

llwyddiant ☐

(ii) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd mwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd y dyn yn gweithio'n galed iawn ac oherwydd hynny fe gafodd...

ei ddiswyddo'n ddirybudd. ☐

ei wobrwyo â chyflog ychwanegol. ☐

ei rybuddio am fod yn ddiog. ☐

ei feirniadu'n hallt gan ei gyflogwr. ☐

(iii) Dewiswch **dri** gair o'r rhestr ganlynol a'u gosod yn y bylchau priodol. Gallwch dreiglo'r geiriau os oes angen. [3]

**cenedl** **cystal** **cenhedlaeth** **gwell**

(a) Mae Elin yn dda am wneud cacen ond mae Ffion yn .......................................................... .

(b) Mae Tudur a Jac .......................................................... â'i gilydd am ddarllen.

(c) Mae pedair .......................................................... o'r teulu yn y llun.



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)

**B1. Prawf ddarllen (5 marc)**

(i) Gosodwch **y** neu **yr** o flaen y geiriau canlynol. Dylech dreiglo os oes angen gwneud hynny. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [3]

| | |
|---|---|
| car | y car |
| merch | |
| afal | |
| ysgol | |
| haf | |
| gwers | |
| drws | |

(ii) Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

ei gath hi ☐

ei chath hi ☐

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Dywed Elen bod mae hi'n teimlo'n sâl.

.......................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**B2.** *Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau* **ysgrifennu**.

Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

*(a)* Ysgrifennwch bortread o'ch arwr / arwres. Nid oes yn rhaid i'r person fod yn enwog. Dylech esbonio pam mae'r person yn arwr / arwres i chi. Gallwch sôn am

- ymddangosiad
- cymeriad / personoliaeth
- arferion
- perthynas â phobl eraill

**Neu,**

*(b)* Ysgrifennwch adroddiad papur newydd yn adrodd hanes arwr / arwres sydd wedi gwneud neu sydd yn parhau i wneud rhywbeth arbennig.

Mae 20 marc am gyfathrebu a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35]

- *Dylech geisio ysgrifennu rhwng 350 a 500 o eiriau.*
- *Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*
- *Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*
- *Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn os bydd angen.*

CYNLLUN



© WJEC CBAC Cyf. (3000N20-1)

Arholwr yn unig

TEITL:

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf.


**Trowch y dudalen os bydd angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.**

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


© WJEC CBAC Cyf.